

PENNOD 2: CYNDELWAW AC ADDEWIDION

Hebreiaid 11. 13, 16

Mewn ffydd y bu farw'r rhai hyn oll, heb fod wedi derbyn yr hyn a addawyd; ond wedi ei weld a'i groesawu o bell, a chyfaddef mai dieithriaid ac ymeithwyr oeddent ar y ddaear... Dyna reswm nad oes ar Dduw gywilydd ohonynt, oherwydd y mae wedi paratoi dinas iddynt.

Rhaid bod pawb ohonom wedi cyfarfod â rhywun benderfynodd ddarllen y Beibl cyfan gan ddechrau gyda Llyfr Genesis am mai hwnnw yw'r llyfr cyntaf yn y gyfrol sanctaidd. Eu bwriad oedd darllen y cyfan o glawr i glawr ond gan suddo hwyr neu hwyrach rhywle yn yr Hen Destament. Rhaid cofio mai nid y drefn ologyddol sy'n bwysig. Man cychwyn y ddealltwriaeth Iddewig o Dduw oedd profiad y bobl o'u ymwneud ag ef yn yr ecsodus o'r Aiff. Y profiad hwnnw oedd man cychwyn eu perthynas â Duw a'r cais i'w adnabod yn well a'i ddeall yn gyflawnach. Cofnod o'r berthynas honno a'r ymchwil honno yw'r Beibl Hebreig.

Dylai Cristionogion ddarllen eu Hysgrythurau mewn ffordd Gristnogol a man cychwyn iddynt yw nid yr Hen Destament ond un o'r Efengylau ac efallai Marc yw'r gorau ar gyfer hyn. Ond yr hyn sy'n waeth yw clywed Cristion yn dweud nad oes angen yr Hen Destament arnom. Rhywbeth cwbl angenrheidiol yw'r Hen Destament i'n dealltwriaeth o ymgnawdoliad Iesu Grist a neges y Testament Newydd yn gyfangwbl. Yr un pryd, Iesu Grist yw'n hallwedd i ddeall yr Hen Destament. Llefara Awstin Fawr ar ran y Tadau Cristnogol Cynnar wrth iddo ddatgan mai "cyflawniad yr Hen Destament yw'r Testament Newydd." Y ffordd Gristnogol o ddarllen yr Hen Destament felly yw yng ngoleuni ei gyflawniad yn Iesu Grist, Pan y gweir hynny, fe wna Crist ei hun yn hysbys mewn manau annisgwyl.

Portreadu dydd olaf y creu wna Genesis 1.31, trwy ddweud: "Gwelodd Duw y cwbl a wnaeth, ac yr oedd yn dda iawn." Gellir cyfieithu'r cymal olaf fel "yn berffaith gyflawn." Ond beth a wêl Duw yma? Ai y byd ar ddiwedd y chweched dydd? Neu sôn y mae am Dduw yn edrych dros holl broses y creu hyd at ei gyflawniad olaf? A yw'r darlun yn cynwys holl hanes y byd hyd at ei gyflawniad terfynol fel y cyflwynir hi yn yr Ysgrhythurau? Ymwnâ gweddill y Beibl â methiant dynol a gras Duw – ei gariad am y rhai nid oes ganddynt hawl arno, nad ydynt yn deilwng ohono – a'r ffordd yr arweinia'r gras hwnnw at fuddugoliaeth derfynol a chyflawniad y pwrpas dwyfol. Agora Ioan ei efengyl gyda sôn utgorn ei Ragarweiniad, lle gelwir Crist y Gair, a datgan bod y Gair yno

yn y dechreuad pan lefarodd Duw a daeth y greadigaeth i fod.

Sôn y mae'r Beibl Hebreig sef Hen Destament Cristnogion, am baratoad i ddyfodiad Gwardwr y Byd. Y Duw "welodd fod popeth "yn dda iawn" fu'n weithgar ar hyd yr hanes beiblaidd i sicrhau mai felly y bydd yng nghyflawnder terfynol ei bwrrpas. Gosodir allan waredigaeth dynoliaeth yn gynnwys iawn yn y stori, gyda llawer cyfeiriad at sut y daw trwy ymgnawdoliad, marwolaeth ac atgyfodiad Iesu Grist, Mab Duw a Mab Dyn.

Deuwn o hyd i gyfeiriadau at Grist mewn digwyddiadau a gwyliau. Darganfyddwyd mai y Duw wnaeth y bobl gyfarfod ag ef yn yr Ecsodus yw Arglwydd natur a hanes; mae'n barnu gormeswyr ac yn drugarog wrth ei bobl, gan greu perthynas cyfamodol gyda hwy. I'r Cristion, cyfeiria'r wŷyn a laddwyd adeg y Pasg at Oen Duw, "fel un wedi ei ladd"¹⁰ neu, yn ôl Beibl y Brenin Iago, "a laddwyd ers sylfaenu'r byd." Yn yr un modd, daw bara croyw (di-nam) yr Ecsodus i fod yn Fara'r Bywyd a dorrwyd trosom. Crist yw'r blaenffrwyth wedi ei hau ar gyfer cynhaeaf mawr. Cyflawnwyd addewid pan y gwelwyd ei allu a'i ogoniant ar y Pentecost, pum deg diwrnod ers ei atgyfodiad, pan llanwyd y Deml gan ei Ysbryd, arwydd o'r addewid y byddai'r un Ysbryd yn llifo allan i'r holl fyd.

Awgryma'r efengylau mai digwyddiad sydyn, wedi ei ddisgwyl am hir amser, oedd ymgnawdoliad y Crist ym mhymthegfed flwyddyn teyrnasiad Tiberiws ond, mewn gwirionedd, dilynodd dyfodiad Crist broses o baratoi a barhaodd dros yr oesau. Er bod hanes Mair, Joseff a'r bugeiliaid yn awgrymu syndod a rhyfeddod, yr hyn a geir yn hanes y doethion a'r hen bobl Simeon ac Anna yw cyflawni aros a disgwyl hir a ffyddlon.

Trwy'r Gair y llefarodd Duw wrth iddo gerdded gydag Adda yn yr ardd; trwy'r Gair yr arweiniodd Noa i fewn i'r arch, a thrwy'r Gair y gwnaeth gyfamod ag Abraham. Felly hefyd y galwodd ar Foses o'r berth, rhanodd y Môr Coch ac arwain y bobl trwy anialwch a rhoi'r Ddeddf iddynt yn Sinai. Llefarodd wrth batriarchiaid, brenhinoedd a phroffwydi ac wrth bobl gyffredin yn ogystal. Daethant yn offerynnau pwrpas Duw. Ni ellir galw 'saint plastr' ar yr un ohonont; bodau dynol ydynt, pob yr un, gyda gwendidau a beiau dynol, ond ymateb a wnaethant i alwad Duw gyda mesur mwy na lai o ffydd ac ufudd-dod. Gellir eu gosod mewn tri dosbarth: mae'r ddau gyntaf yn cynnwys cynddelwau o Iesu, a'u bywydau yn cyfeirio at rywbeth yn stori Crist; datgan addewidion Duw mae'r ail ddosbarth, sy'n cael eu gwireddu ym mherson a gwaith Iesu Grist; tra bod y grŵp olaf yn cynnwys y bobl hynny sy'n ffyddlon, beth bynnag sy'n digwydd iddynt; sonnir yn y Testament Newydd am bobl debyg fel "y saint." Cawn gyfarfod â rhai ohonynt yn hanes y Geni.

Pwy yw rhai o'r cynddelwau hyn? Ymatebodd Abraham heb betruso i alwad Duw i ymadael â'i gartref i fynd ar daith, heb iddo wybod i ble oedd yn mynd, fel y cyntaf i gerdded ar ffordd genhadol Duw. Ble bynnag yr â, beth

bynnag a wna, pa brofiadau bynnag a ddaw i'w ran, mae'r cyfan er lles pobl eraill: "Dos o'th wlad, ac oddi wrth dy deulu a'th dylwyth, i'r wlad a ddangosaf i ti. Gwnaf di yn genedl fawr a bendithiaf di; mawrygaf dy enw a byddi'n fendith... ac ynot ti y bendithir holl dylwythau'r ddaear. Aeth Abram fel y dywedodd yr Arglwydd wrtho."¹¹ Galwa Duw ddyn, sy'n cael ei ryddhau o bob berthynas llwythol a'i ddanfon i fod yn dad cenedl newydd, fydd yn fendith i'r holl ddynoliaeth trwy'r holl genhedlaethau. Caiff y tueddiad dynol i greu 'ni' a 'nhw' ei amlygu yn hanes Tŵr Babel. Y tro hwn ceisia hil ddynol unedig ennill annibyniaeth oddi wrth Dduw ac mae'r cais yn arwain at ddiristr. Daw gobaith newydd i'r holl fyd trwy yr un dyn hwn a'r cyfamod a wnaed gydag ef, gobaith a gyflawnwyd trwy fab i Abraham, sy'n cymryd arno'i hun holl bechod a gofid y byd a'i ddwyn at ei groes er gwaredigaeth yr holl fyd. Fel y cafodd Lot ei achub oherwydd Abraham, felly gwaredir y byd oherwydd Crist. Defnyddir thema galwad Abraham gan y proffwydi Eiseia a Sechariah." Y mae ar gael yn y Testament Newydd ar dair achlysur.

Enynnodd Joseff ddiog ei frodyr yn ei erbyn a chafodd ei werthu fel caethwas i'r Aifft, lle ddioddefodd greulondeb a chaledi cyn iddo gael ei ddyrchafu i ddeheulaw'r brenin. Sicrhaodd fod yna fara yn yr Aifft. Dioddefodd y cyfan er gwaredigaeth ei dad, ei frodyr a'u disgynyddion a thrwyddynt hwy holl deulu dyn, i'rhai ac er mwyn y rhai y daeth Crist yn Waredwr a Bara'r Bywyd.

Agora Llyfr yr Ecsodus gyda chyfnod newydd. Anghofwyd am Joseff a fu farw ymhell yn ôl. Rheolir yr Aifft gan frenin newydd sy'n ofni twf y boblogaeth Hebreig fewnfulol, gan ei chaethiwo. Yn llawn ofn, gorchymynna fod pob bachgen Hebreig newydd ei eni i'w ladd. Arwresau yr hanes yw'r bydwragedd sy'n anuffuddhau. Beichiogodd menyw ar fab a chafodd hwnnw ei guddio mewn cawell a roddwyd ymysg yr hesg ar ymyl yr afon Neil. Cafodd ei ddarganfod gan ferch y brenin a chael ei fagu fel tywysog gan bobl estron. Un diwrnod sylweddola nad i'r tywysogion mae'n perthyn ond i'r genedl gaeth. Yn nes ymlaen rhaid iddo ddianc i'r anialwch lle glywodd llais Duw yn ei alw, y Duw a ddywedodd wrtho: "Duw dy dadau wyf fi, Duw Abraham, Duw Isaac a Duw Jacob... Yr wyf wedi gweld adfyd fy mhobl yn yr Aifft... yr wyf wedi dod i'w gwaredu."¹² Ond cyn hynny yr ysgrifenydd "Clywodd Duw eu cwynfan, a chofiodd ei gyfamod ag Abraham, Isaac a Jacob..."¹³ Rhaid i Foses ymadael â'r anialwch a dychwelyd i'r Aifft i arwain y bobl allan. Ar y daith wedyn trwy'r anialwch rhaid iddo ddiodef camdriniaeth a bygythiadau o'i ladd gan y rhai a elwid i fod yn bobl Dduw ond rhoddodd ei ymddiriedaeth yn yr un Duw. Mae'r tebygrwydd i hanes Iesu'r Gwaredwr yn eglur. Arweiniodd Moses y bobl mor bell â'r Iorddonen lle bu farw. Dilynwyd ef gan gynddelw arall, sef Joshua, eu harweinydd wrth iddynt feddiannu Gwlad yr Addewid. Arwydd barhaol bod Duw gyda hwy yw Arch y Cyfamod fydd yn eu harwain trwy ddyfroedd yr

lorddonen ac ymlaen.

Cynddelw arall yw stori Samuel a'i fam, fel y nodir yn hanes y Geni. Un arall yw'r proffwyd Elias, sy'n arwain y frwydr yn erbyn dilynwyr Baal a arweiniwyd gan y brenin Ahab a'i wraig Jesebel. Cafodd Elias hefyd brofiad o anialwch: Clywodd lais Duw ar ganol ei unigrwydd a'i ymdeimlad o fethiant. Hawliodd y proffwydi ddaeth ar ei ôl berthynas ysbrydol ag ef trwy Eliseus ei ddisgybl. Byddai cenedloedd nes ymlaen yn disgwyl ei ddyfodiad yn ôl fel offeryn cymod cyn dydd yr Arglwydd.¹⁴ Yr olaf ac efallai'r pwysicaf o'r cynddelwau yw'r Brenin Dafydd. Llwyddodd i ryddhau'r genedl o fygythiadau gelynyion, gan sefydlu teyrnas fawr. Bu i yntau hefyd ddiodef cyfnod o anialwch ond parhaodd ei ffydd yn Nuw fel y gwelir yn ei Salmau. Ni pheiodd â chlodfori Duw. Ymddengys ei enw dros wyth cant o weithiau yn yr Hen Destament a thrigain gwaith yn y Newydd.

Gair mawr yr Hen Destament am berthynas Duw a'i bobl yw "cyfamod." Defnyddir nifer o eiriau Hebraeg am gyfamod ond gwelir y mwyaf poblogaidd ohonynt ar dudalennau'r Hen Destament 286 o weithiau.¹⁵ Caiff ei ddefnyddio gan y proffwydi fel arfer wrth gyhoeddi barn Duw ar y bobl am dorri'r cyfamod ond y mae yna dri sy'n sôn am y gobaith sy'n ynghlwm wrth yr addewid am gyfamod newydd: Gwnaed cyfamod â Noa wrth iddo baratoi'r Arch, arwydd o ddechreuad newydd i'r greadigaeth oll, gan gynnwys pob creadur.¹⁶ (Genesis 6. 18). Gwelsom eisoes fod Llyfr yr Ecsodus yn sôn am Dduw yn clywed griddfan ei bobl gan gofio ei gyfamod ag Abraham, Isaac a Jacob. Dewisodd Foses i fod yn was y Cyfamod gafodd ei adnewyddu ar Sinai (Ecsodus 34. 10). Ar ei wely angau dywedodd Dafydd, "Yn sicr, onid felly y mae fy nheulu gyda Duw, oherwydd gwnaeth gyfamod tragwyddol â mi, un trefnus ymhob cymal, a diogel" (2 Samuel 23. 5). Ymddengys y gair ugain o weithiau yn Salmau, a theirgwaith yn dweud bod Duw yn cofio ei gyfamod: "Ef yw'r Arglwydd ein Duw... Y mae'n cofio ei gyfamod dros byth, gair ei orchymyn hyd fil o genhedlaethau, sef y cyfamod a wnaeth ag Abraham, a'i lw i Isaac, yr hyn a osododd yn ddeddf i Jacob ac yn gyfamod tragwyddol i Israel....." (Salm 105, 7a, 8-10; gwelir hefyd Salmau 89. 3 a 111. 5). Jeremiah sy'n cyhoeddi cyfamod newydd: "Y mae'r dyddiau'n dod, medd yr Arglwydd, y gwnaf gyfamod newydd a thŷ Israel a thŷ Jwda..." (Jeremiah 31. 31).

Thema barhaus yr Hen Destament yw bod Duw yn cymryd y blaen gyda'i ras a'i ffafr, bod y bobl yn ymwrthod â Duw, ei farn, ei faddeuant a'i adferiad. Mae Eiseia yn y rhan gyntaf o'r llyfr (pennodau 1-39) yn datgan sofraniaeth a sancteiddrwydd Duw, gan sôn hefyd am bechod dynol a ffydd yn yr Arglwydd, am weddill ffyddlon ac addewid o'r Meseia. Yn y rhan ganol (pennodau 40-55), a elwir weithiau yn Ail Eiseia, o ganol y chweched ganrif cyn Crist, mae'r proffwyd yn cyhoeddi dyfodiad gwaredigaeth a maddeuant. Adeiladir prif-ffordd dros yr anialwch o Fabydon i Jerwsalem ar gyfer dyfodiad

yr Arglwydd a'r holl genhedloedd yn dystion o'i ogoniant. Byddai'r darllenwyr cyntaf yn gyfarwydd â'r anghenraid i gynnal holl ffyrdd ymherodraeth Babylon rhag ofn i'r brenin deithio arnynt.

Enw Cristnogion ar y pennodau pwysicaf i ni yw Caneuon y Gwas neu Ganeuon y Gwas Dioddefus. Yn y cyntaf ohonynt (42. 1-4) sonnir am addfwynder a grym y Gwas fydd yn gosod "barn ar y ddaear" a'r "ynysoedd yn disgwyl am ei gyfraith." Dyma Dduw yn ei lunio a'i "osod yn gyfamod pobl, yn oleuni cenhedloedd, i agor llygaid y deillion, i arwain caethion allan o'r carchar, a'r rhai sy'n byw mewn tywyllwch o'u cell" (42.6-7). Ond mae pobl Dduw yn ddall iddo a'r rhai alltud yn ymddwyn fel carcharorion briwedig o galon. Nid y grym a'u trechodd sy'n gyfrifol am eu cyflwr ond eu pechod eu hunain. Crist, Goleuni'r Byd sy'n eu rhyddhau ac yn adfer eu golwg trwy ei ddiodefaint. Thema debyg sydd i'w gweld yn yr ail gân (Eseia 49, 1-7) ond y tro hwn, rhoddir y geiriau yng ngheg y Gwas. Galwyd ef cyn ei eni i fod yn Was yr Arglwydd ond siom sy'n ei feddiannu: "Dywedais innau, 'Llafuriais yn ofer, a threuliais fy nerth i ddim; er hynny, y mae fy achos gyda'r Arglwydd, a'm gwobr gyda'm Duw." Atebodd Duw (adnodau 6-7) "Peth bychan yw i ti fod yn was i mi, i godi llwythau Jacob ar eu traed, ac adfer rhai cadwedig Israel; fe'th wnaft di yn oleuni i'r cenhedloedd, i'm hiachawdwriaeth gyrraedd hyd eithaf y ddaear." Yn ôl yr addewid ar ddiwedd y gân, "Bydd brenhinoedd yn sefyll pan welant a'r tywysogion yn ymgrymu..." ond i bwy? I "yr un a ddirmygir ac a ffeiddir gan bobloedd, wrth gaethwas y trahaus." Unwaith eto cyfeirir at un a osodwyd yn "gyfamod i'r bobl" (adnod 8), sy'n adfer "rhai cadwedig ac yn oleuni i'r cenhedloedd." Cânt oll ymborth ar y ffordd at Dduw.

Newidir y thema yn y ddwy gân nesaf, lle rhoddir pwyslais ar ddiodefaint y Gwas. Disgrifiad sydd gan y drydedd (50. 4-11) o sut y cafodd y Gwas ei wawdio a'i gam-drin gan y rhai y daeth i'w achub. Y bedwaredd gân (Eseia 52.13-53,12) sy'n plymio'n ddyfnaf i ddiodefiantau'r Gwas: "wedi ei ddirmygu a'i wrthod... yn ŵr clwyfedig, cyfarwydd â dolur... ond archollwyd am ein camweddau ni; roedd pris ein heddwch ni arno ef, a thrwy ei gleisiau ef y cawsom ni iachâd." Arweinir Oen Duw i'r lladdfa, yn gwbl ddistaw, ond trwy ei ddiodef ef y cyflawnwyd gwardigaeth yr hollfyd.

Ail broffwyd mawr y chweched ganrif yw Jeremeia, dyn yn ymwybodol iawn o'i alwad i gyhoeddi Gair yr Arglwydd. Neges o farn sydd ganddo gyda galwad i edifeirwch. Dioddefodd wrthwynebiad llym "proffwydi poblogaidd" ei ddydd gan gael ei wrthod, ei guro a'i figwth gyda marwolaeth. Cyfranoga o ddiodefaint ei bobl adeg cwmp Jwda. Sonir amdano fel "Jeremeia digalon" neu "Dismal Jeremiah" ond, cyn y diwedd, y mae ganddo neges o obaith. Adnabyddir pennodau 30-31 fel "Llyfr Bach Cysur," a neges o obaith ar eu tudalennau. Bydd Duw yn arwain ei bobl adref fel bugail yn casglu ei braidd ynghyd. Fe wna gyfamod newydd â'i bobl gan ei ysgrifennu ar eu calonnau

(31. 33). Ond rhaid i rywun dalu'r pris ac y mae cri Llyfr Galarnad Jeremeia yn debyg i eiddo Crist dros Jerwsalem ar Sul y Blodau (Luc 19. 41-44).

Eseciel, aelod o deulu offeiriadol, yw'r trydydd proffwyd mawr. Cafodd ei alw gan Dduw yn 30 oed. Fel Jeremeia, cyhoedda gwmp Jerwsalem a'r Deml, gan ddioddef gwrthwynebiad llym am hynny. Rhyw ugain mlynedd ar ôl ei alw i fod yn broffwyd, dechreuodd gael gweledigaethau o deml newydd, thema gafodd ei datblygu yn y Llyfr at yr Hebraeid 10. 19-23: "Felly, gyfeillion, gan fod gennym hyder i fynd i mewn i'r cysegr drwy waed Iesu, ar hyd ffordd newydd a byw y mae ef wedi ei agor i ni drwy'r llen, hynny yw trwy ei gnawd ef, a chan fod gennym offeiriad mawr ar dŷ Dduw, gadewch i ni nesáu â chalon gywir, mewn llawn hyder ffydd, a'n calonnau wedi eu taenellu'n lân oddi wrth gydwybod drwg, a'n cyrff wedi eu golchi â dŵr glân. Gadewch i ni ddal yn ddiwyro at gyffes ein gobaith, oherwydd y mae'r hwn a roddodd yr addewid yn ffyddlon."

Dwy ganrif wedyn ceir "Proffwydi Bach" y chweched ganrif cyn Crist. Edrych ymlaen y maent fel eu rhagflaenwyr. Stori am wrthdaro sydd yn Llyfr Daniel, wedi ei gosod ym Mabyllon ond prif neges y stori yw bod Duw yn achub Daniel a'i gymdeithion a'r un Duw fydd yn achub ei bobl.

Defnyddia Hosea ei ddiodeffaint ei hun, achoswyd gan anffyddlondeb ei wraig, a'i gariad tuag ati yn achos iddo ei gwared o gaethiwed, i ddarlunio perthynas Duw â'i bobl; wedyn defnyddia ddarlun o berthynas tad a mab, sy'n cyffwrdd â theimladau'r darlennydd.

Darogan Dydd yr Arglwydd yw gwaith Joel tra bod Amos yn cyhoeddi barn a phrynedigaeth. Byrdwn Llyfr Jonah yw gofal Duw am y cenedloedd ac anufudd-dod ei bobl ei hun wrth iddynt wrthod rhannu ei gyfiawnder. Mae'r stori yn cynnwys math ar farw ac atgyfodi gyda diweddglo yn cyhoeddi trugaredd buddugoliaethus Duw. Patrwm o farn a gobaith sydd i'w cael gan Micah. Caiff llywodraethwyr anghyfiawn eu condemnio, caiff hawliau'r tlawd eu hamddiffyn a chyfiawnder Duw ei gyhoeddi. Edrych ymlaen mae Micah at adferiad pobl Dduw ac heddwch i'r holl-fyd. Cyhoeddi Dydd yr Arglwydd mae Sephaniah hefyd, y dydd y cesglir yr holl genhedloedd ynghyd i dderbyn barn Duw. Rhagwêl Deyrnas Dduw a phob cenedl yn dod i fewn iddi, a Duw ei hun yn bresennol yn ei chanol. Dymchwel teyrnasodd y ddaear sydd gan Haggai a sefydlu teml newydd i'r Arglwydd. Saif Sechariah yng nghyfnod yr Iddewon ym Mabyllon yn ystod brenhiniaeth Dariws, brenin Persia, ac wedi iddynt ddychwelyd i Jerwsalem; cofnod o gyfres o weledigaethau sydd ganddo, yn sôn am farn ar Israel ac ar y cenedloedd, am frenin newydd a gwaredigaeth. Disgrifia ddyfodiad y brenin: "Wele dy frenin yn dod atat, â buddugoliaeth a gwaredigaeth, yn ostyngedig ac yn marchogaeth ar asyn, ar ebol llwdn asyn" (9.9), geiriau sy'n cael eu difynnu gan yr efengylwyr wrth ddisgrifio Crist yn dod i Jerwsalem ar Sul y Blodau. Distrywia arfau rhyfel a gosod heddwch i'r

holl genhedloedd, a hwythau'n ran o Deyrnas Dduw. Mae ganddo adnod bwerus am dynged Bugail yr Arglwydd, a ddefnyddir hefyd gan yr efengylwyr: "Taro'r bugail, a gwasgerir y praidd" (13.7). Llyfr Malachi yw'r olaf yn yr Hen Destament. Ceir ynddo ddarnau sy'n debyg i bennodau yn Sechariah ond gofid Malachi yw cyflwr crefydd a moeseg yn Jerwsalem ar ôl dychwelyd o'r gaethglud. Beirniada'r bobl am amau cyfiawnder Duw gan alw arnynt fod yn ffyddlon wrth iddynt ddisgwyl dyfodiad Dydd yr Arglwydd. Addewid y proffwyd hwn yw y daw y Dydd, a bydd Duw yn danfon atynt "Elias y proffwyd cyn dydd mawr ac ofnadwy yr Arglwydd" (4,4). Daw Elias i'r Deml i buro offeiriad a'r bobl cyn iddo ddod. Erbyn cyfnod Iesu y grêd gyffredinoll ymhlith yr Iddewon oedd y byddai Elias yn paratoi ffordd y Meseia. I'r Cristnogion cyntaf, cyflawnwyd hyn trwy weinidogaeth Ioan Fedyddiwr. Oni ddywedodd Iesu wrth y dorf, "Dyma'r un y mae'n ysgrifenedig amdano, 'Wele fi'n anfon fy nghennad o'th flaen a pharatoi ffordd ar dy gyfer" (Mathew 11.10).

Mae'n holl-bwysig cofio wrth grwydro o lyfr i lyfr mai'r Beibl cyfan sy'n adrodd stori gwaredigaeth y byd. Nid rhagair i'r Testament Newydd yn unig mo'r Hen – dyma rhan gyntaf yr hanes gyfan. Cyflawnir yn y Newydd yr hyn a ddechreuir yn yr Hen. Ymgawdoliad Crist fel y gosodir allan yn yr Efengylau yw man cychwyn y cyflawni hwnnw.

*Arglwydd, arhoswn amdanat;
Cadw ni trwy dy ras wrth i ni ddisgwyl dy ddyfodiad.
Pâr i ni fod yn ffyddlon ymhob peth
fel y cawn dy groesawu gyda llawenydd a mawl.*

Cwestiynau i feddwl drostynt neu i'w trafod

Beth yw pwysigrwydd yr Hen Destament i'r Cristion?

A oes yna broffwydi heddiw? Os felly, pwy ydynt?

Ymhle y gwelir gwaith gwaredigol Crist heddiw?

Beth yw'n rhan ni?